# Canfyddiadau o **Lais Disgyblion** mewn Ysgolion Cynradd: Crynodeb

Yn 2023/24, fe wnaethon ni siarad â 34 o ddisgyblion ysgol gynradd fel rhan o'n gwerthusiad o'r Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol a gofyn iddyn nhw am weithgareddau llais y disgybl yn eu hysgol a'u canfyddiadau o ba mor effeithiol oedden nhw. Dyma grynodeb o'r hyn a ddywedon nhw.

**Roedd disgyblion ar draws ysgolion cynradd yn ymwybodol o grwpiau llais y disgybl yn eu hysgolion ac yn deall beth oedd y grwpiau hynny'n ei wneud.** Fe wnaethon nhw restru grwpiau fel seneddau ysgolion, cynghorau ysgolion, grwpiau eco, hyrwyddwyr Cymru, pwyllgorau lles a grwpiau cyfathrebu. Cysylltodd sawl disgybl bwrpas y grwpiau hyn â hyrwyddo Hawliau Plant mewn ysgolion.

**Disgrifiodd y disgyblion lawer o swyddogaethau gwahanol y grwpiau yn eu hysgolion-** roedd rhai wedi'u hanelu at wneud newidiadau yn yr ysgol, roedd eraill wedi'u hanelu at godi arian, naill ai ar gyfer elusennau fel Plant mewn Angen, neu ar gyfer yr ysgolion eu hunain.

**Nododd nifer o ddisgyblion newidiadau cadarnhaol yn digwydd yn eu hysgolion** o ganlyniad i weithgareddau llais y disgybl, fel newidiadau i ailgylchu a mwy o offer chwarae ar gyfer y maes chwarae. Fel arfer, roedd y rhai a oedd yn rhan o grwpiau llais y disgybl yn mwynhau cymryd rhan.

Teimlai rhai disgyblion nad oedd staff yn aml yn gweithredu ar awgrymiadau. Myfyriodd rhai, er eu bod wedi cael eu hannog i siarad â'u cyfoedion am wneud newidiadau yn yr ysgol, nad oedd uwch staff yn gweithredu ar y newidiadau a awgrymwyd ganddynt.

**Roedd rhwystrau i effeithiolrwydd a chyrhaeddiad llais y disgybl** yn cynnwys diffyg cyllid i weithredu syniadau disgyblion, a chanfyddiadau nad oedd dewis aelodau llais y disgybl bob amser yn gynrychioliadol.

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd
Wolfson Centre for Young People's Mental Health / Canolfan Wolfson ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Ifanc
DECIPHer
Ariennir gan Lywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government